



**Ffurflen Mynegi
Diddordeb**

Grŵp Cynghori

**Cenedlaethol Voices From
Care Cymru**



Pwy ydi Voices From Care Cymru?

Mae Voices From Care Cymru yn bodoli i wella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad o ofal. Rydym yn gwneud hyn drwy fod yn llais annibynnol i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a drwy roi'r cyfle i chi gael eich clywed. Dyma'r pethau rydym yn eu gwerthfawrogi:

Cael ein Harwain gan Bobl Ifanc

Bod yn Uchelgeisiol

Natur Unigryw

Cydraddoldeb i Bawb
sydd Mewn Gofal

Creu Teulu Gofal

Manylion Personol

Enw Llawn

Rhif Ffôn

Cyfeiriad

Ebost

Awdurdod Lleol

Dyddiad Geni

Rhyw

Gair am y Prosiect

Beth yn union ydi'r Grŵp Cynggori?

Bydd Grŵp Cynggori Voices From Care yn cynnwys cynrychiolwyr ifanc o bob rhan o Gymru sydd â phrofiad o ofal. Byddwn yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ledled Cymru, i drafod dyfodol ein sefydliad a sut y gallwn wella bywydau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Bydd y grŵp cynggori yn ffordd wych o gyfarfod â phobl ifanc eraill o bob rhan o Gymru sydd â phrofiad o ofal a dod i wybod am yr holl bethau gwych sy'n digwydd yn eich ardal chi, yn ogystal â'r pethau yr hoffai pobl ifanc eu gwella.

Prif nodau'r cynrychiolwyr ifanc, a fydd rhwng 12 ac 21 oed, fydd helpu i sefydlu'r cynllun ar gyfer Voices From Care Cymru, rhoi cyngor i ni ar y pethau sy'n bwysig i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a sut y gallwn ni weithio'n well drosoch chi.

Mae'n bwysig, achos chi sy'n llywio bob dim mae Voices From Care Cymru yn ei wneud. Rydyn ni'n meddwl y dylai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael yr un cyfleoedd â phawb arall sydd heb gael yr un profiadau bywyd.

Rydyn ni'n rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc gyfarfod â phobl, tyfu, dysgu a gwneud ffrindiau am oes. Rydyn ni am i'n pobl ifanc i gyd fod y gorau y gallant fod.

Rydyn ni bob amser yn chwilio am ffyrdd i'ch ysbrydoli a'ch meithrin er mwyn ichi gyflawni eich potensial yn llawn. Rydym yn croesawu pobl ifanc sydd â phob math o brofiadau o ofal o bob rhan o Gymru. Rydym yn hyrwyddo natur unigryw ac amrywiaeth - mae hyn yn golygu y gallwn gynrychioli'r bobl sy'n bwysig i ni yn well, sef CHI!

Mynegi Diddordeb mewn Bod yn Gynrychiolydd Ifanc

Gallwch wneud cais ar eich pen eich hun neu gyda help oedolyn, yn Saesneg neu yn Gymraeg, mewn sawl ffordd.

Gallwch lenwi'r ffurflen isod neu ateb y cwestiwn ar ffurf cerdd, cân, fideo, lluniau, llythyr neu gyflwyniad.

Dywedwch ychydig bach wrthym ni am y problemau mae pobl ifanc mewn gofal yn gallu eu hwynebu

Pa sgiliau rydych chi'n meddwl sy'n bwysig i rywun sy'n cynrychioli pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal?

Sut fydddech chi'n defnyddio'r sgiliau sydd gennych chi?

Os bydddech chi'n dod yn gynrychiolydd ar gyfer
y grŵp cynghori, beth fydddech chi'n hoffi ei
gyflawni?

At bwy ddylech chi anfon eich mynegiant o
ddiddordeb?

Gallwch anfon eich ffurflen mynegi diddordeb, fideo, cerddoriaeth
neu unrhyw gyfrwng arall rydych chi am ei gyflwyno at Aiden
Richards yn Voices From Care Cymru.

Os oes gennych chi gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch ag Aiden
isod:

Cysylltu ag Aiden

E-bost aiden@vfcc.org.uk

Ffôn 02920 451 431